



*J. Thomas.*] MYNWENT MEIFOD.

D

# Rhagymadrodd.

MAB hynaf Edward a Margaret Griffiths, Rhos Fawr, Meifod,—wedi hynny Cefn Du, Cegidfa,—oedd Thomas Griffiths. Ganwyd ef ym Medi, 1776. Yr oedd yn wr ieuanc hawddgar a thirion, ac ymhoffai pawb ynddo. Yr oedd o natur ddwys a meddylgar, a'i fryd ar wneyd daioni.

Hydref 10, 1804, priododd Ann Thomas,—erbyn hyn yn ferch ieuanc amddifad,—ac aeth ati i fyw i Ddolwar Fach. Wedi colli ei briod, gadawodd Ddolwar ym Mai, 1806, a daeth at ei fam i'r Ceunant, Meifod. Wedi ymweled â bedd ei wraig, meddir, y canodd ei emyn,—

"Rwy'n cael arwyddion amlwg."

Mewn hiraeth angerddol am dani, ac mewn gwaith selog gyda'r Ysgol Sul, y treuliodd weddill byrr ei oes. Bu farw yn 1808, a chladdwyd ef ym Meifod. Ysgrifennwyd bywgraffiad iddo gan John Hughes.

Cyhoeddwyd ei emynnau gan Erfyl yn 1817; codir hwy i'r dalennau sy'n dilyn o argraffiad Morris Davies.

OWEN M. EDWARDS.

# THOMAS GRIFFITHS.

I.

MAE myrdd o ryfeddodau
  Yn mherson Iesu Grist,
Rhodd lawer gwledd i'm henaid
  Pan oeddwn fwyaf trist ;
Cân, f'enaid, am ei gariad,
  Ac hefyd am ei ras,
Sy'n maddeu ac yn clirio
  Y beiau mwya i maes.

II.

Efengyl Crist sy'n galw
  Pob dyn i 'difarhau,
Gan gynnyg pardwn iddynt
  Er cymmaint yw eu bai ;
Ac oni lwydda'r alwad,
  Gwybyddwch hyn dros Grist,
Y deuwch chwithau i alw,
  A Duw heb roddi clust.

III.

Rwy'n cael arwyddion amlwg
  Mai 'madaw wnaf cyn hir,
Er cystal yw eich cwmni
  Gan natur yma'n wir ;
A'ch gadael chwithau yma
  I gael y fraint yn hwy
O ymladd gyda'r fyddin
  Dros lwyddiant marwol glwy.

Mi welais yn y boreu
  I roddi arno 'mhwys,
Yngwyneb bod dan ddedfryd
  Ac argyhoeddiad dwys,
Un cadarn a digonol,
  Un addas imi'n wir,—
Ennillodd ef fy nghalon
  I orphwys arno'n glir.

Mi gysgaf hun yn dawel
  Ar fyr yn ngwaelod bedd,
I ddisgwyl am fy Marnwr
  Ag udgorn i roi llef;
Ac yna mi gyfodaf
  I gwrdd a'm Harglwydd mawr,
Yn dyfod ar y cwmmwl
  I farnu'r dyrfa fawr.

Bydd yno'r fath ryfeddod
  Na welodd dyn erioed,
Er pan y crewyd Adda
  I'r olaf ddyn gaiff fod;
Y dyrfa yn gwahanu,
  Pob un i'w le ei hun,
A ninnau yn cael gwledda
  Yn nghwmni Mab y dyn.

IV.

Yma 'rwyf mewn anial maith,
    Iesu tirion,
Dan fy nghlwyfau lawer gwaith
    Gan elynion;
Rhof fy ngofal arnat ti,
    Nes del angeu,
Yma derbyn f'enaid i
    I dy freichiau.